# DATGANIAD O'R RHESYMAU

## GORCHYMYN CYDGRYNHOI SIR GAERFYRDDIN (LLANELLI) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 43) 2026

Mae'r gorchymyn uchod ("y Gorchymyn") yn rhoi effaith barhaol i'r darpariaethau a gyflwynwyd yn flaenorol gan y 'Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngiad Aros Arbrofol a Mannau Parcio Stryd) (Amrywiad Rhif 43) 2024', a ddaeth i rym ar y 1af o Dachwedd 2024 ("y Gorchymyn Arbrofol").

Diben y Gorchymyn Arbrofol

Cyflwynwyd y Gorchymyn Arbrofol gan Cyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor") i brofi gweithrediad ac effeithiolrwydd mesurau rheoli traffig a fwriadwyd i gyflawni'r dibenion statudol a nodir yn Adran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sef:

a) hwyluso symudiad traffig (gan gynnwys cerddwyr) yn ddiogel ac yn effeithlon drwy gynnal mynediad a ffordd allan ddiogel i barcio oddi ar y stryd gerllaw, creu Bae Llwytho yn Unig dynodedig ar gyfer busnesau lleol a lledu llwybrau troed; ac

b) osgoi perygl, neu'r tebygolrwydd o berygl, i bob defnyddwyr ffordd trwy atal parcio wrth gyffordd, a thrwy hynny gwella gweledEdd wrth y gyffordd, a darparu mannau parcio i bobl anabl yn unig.

Roedd y Cyngor yn ei ystyried yn briodol cyflwyno'r cyfyngiadau hyn ar sail dreial i ddechrau, er mwyn asesu eu heffaith ymarferol cyn penderfynu a ddylid eu cadw'n barhaol.

Rhesymau Dros Wneud y Gorchymyn yn Barhaol

Ar ôl ystyried gweithrediad y Gorchymyn Arbrofol, mae y Cyngor yn fodlon bod parhad y cyfyngiadau a amlinellir yn y Gorchymyn Arbrofol yn gyfiawn ac yn gymesur o dan orchymyn parhaol:

1. Mae'r Cyngor o'r farn bod y gorchymyn parhaol yn cydbwyso anghenion gwahanol ddefnyddwyr y brifford yn briodol ac yn cefnogi amcanion trafnidiaeth a diogelwch ffyrdd ehangach yn yr ardal.
2. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol gan aelodau'r cyhoedd na'r ymgynghoreion statudol i wneud gorchymyn parhaol ar yr un telerau â'r Gorchymyn Arbrofol yn ystod y chwe mis cyntaf o'r Gorchymyn Arbrofol yn dod i rym.
3. Mae'r Cyngor yn fodlon nad yw'r mesurau parhaol yn arwain at unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon a bod unrhyw effaith a nodwyd yn gymesur ac yn gyfiawn.

Am y rhesymau a nodir uchod, mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol gwneud y Gorchymyn sy'n rhoi effaith barhaol i ddarpariaethau'r Gorchymyn Arbrofol.